Y
Comisiwn
Etholiadol

Templed adroddiad yr archwilydd a nodiadau esboniadol ar gyfer ymgyrchwyr cofrestredig nad ydynt yn bleidiau sy'n gwario mwy na £250,000 mewn etholiadau cyffredinol Senedd y DU

Ynglŷn â'r canllawiau hyn

Os ydych yn ymgyrchydd cofrestredig nad yw'n blaid a'ch bod wedi gwario mwy na £250,000 ar weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir mewn etholiad cyffredinol Senedd y DU, mae'n rhaid i chi gyflwyno adroddiad a baratowyd gan archwilydd cymwysedig annibynnol – fel y diffinnir yn adran 160 o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 – pan fyddwch yn cyflwyno'ch ffurflen gwariant ymgyrchu.

Ar gyfer pwy y mae'r canllawiau hyn?

Mae'r ddogfen hon ar gyfer yr ymgyrchydd nad yw'n blaid sy'n paratoi ar gyfer yr archwiliad ac ar gyfer yr archwilydd sy'n cwblhau'r adroddiad. Mae'n rhoi arweiniad i archwilwyr a gwybodaeth i'r ymgyrchydd ar sut y dylai baratoi ar gyfer y broses a beth i'w ddisgwyl o'r adroddiad.

Mae'r templed a ddarperir ar ddiwedd y ddogfen hon yn gosod y gofynion sylfaenol ar gyfer adroddiad yr archwilydd.

Nodiadau eglurhaol

Gwariant ar weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir

Ni chaiff gwariant ar weithgareddau ymgyrchu gan ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau ei reoleiddio oni bai y gellir yn rhesymol ystyried ei fod wedi'i fwriadu i hyrwyddo neu gaffael llwyddiant etholiadol:

- un neu ragor o bleidiau gwleidyddol
- pleidiau gwleidyddol neu ymgeiswyr sy'n cefnogi neu ddim yn cefnogi polisïau penodol neu
- categori arbennig arall o ymgeiswyr

trwy ddylanwadu ar bleidleiswyr mewn etholiad sydd ar ddod i bleidleisio mewn ffordd benodol.

Mae'r mathau o weithgareddau a fydd ac na fyddant yn cael eu rheoleiddio ar gyfer ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau wedi'u nodi yn Atodlen 8A i'r Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferendwm. Gelwir p'un a ellir yn rhesymol ystyried bod gweithgarwch cymhwyso yn bwriadu dylanwadu ar bleidleiswyr i bleidleisio mewn ffordd benodol yn 'brawf pwrpas'. Dim ond os ydynt hefyd yn cynnwys y cyhoedd y caiff rhai gweithgareddau eu rheoleiddio.

Os yw'n ofynnol i'r ymgyrchydd gyflwyno ffurflen gwariant a rhoddion ar ôl yr etholiad, rhaid cynnwys unrhyw wariant yr aed iddo gan neu ar ran yr ymgyrchydd nad yw'n blaid ar weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir yn ystod y cyfnod a reoleiddir yn y ffurflen.

I gael rhagor o wybodaeth, gweler Gweithgareddau ymgyrchu a reoleiddir yn ein canllawiau i ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau.

Cyfyngiadau ar ymgymryd â gweithgareddau ymgyrchu a reoleiddir a thalu amdanynt

O dan adrannau 90-93 o'r Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda, dim ond y person cyfrifol sydd wedi'i gofrestru gyda'r Comisiwn Etholiadol, a phobl sydd wedi'u hawdurdodi'n ysgrifenedig gan y person cyfrifol, all fynd i wariant ar weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir a thalu amdanynt. Mae yna hefyd derfynau amser o ran erbyn pryd y mae'n rhaid i'r person cyfrifol dderbyn a thalu anfonebau ar gyfer gwariant ymgyrchu.

- Mae'n rhaid i bob anfoneb ddod i law o fewn 30 diwrnod i'r etholiad a' u talu o fewn 60 diwrnod i'r etholiad. Gelwir anfonebau a dderbynnir neu sy'n dal i fod heb eu talu ar ôl y terfyn amser hwn yn hawliadau heb eu talu a hawliadau sy'n destun dadl, ac ni ddylid talu'r rhain oni bai bod y blaid wedi cael dyfarniad llys neu orchymyn i wneud hynny.

Yn adran 85 o'r Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda, gelwir gwariant a reoleiddir yn 'wariant a reolir'. Rydym yn cyfeirio at hyn fel gwariant ar weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir yn ein canllawiau. Fodd bynnag, rydym yn defnyddio'r term cyfreithiol yn y ffurflen a'r adroddiad templed.

Ffurflen gwariant a rhoddion

O dan adran 96 o'r Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda, rhaid i berson cyfrifol yr ymgyrchydd nad yw'n blaid baratoi ffurflen mewn perthynas â gwariant ar weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir yr aed iddo gan, neu ar ran, yr ymgyrchydd yn ystod y cyfnod a reoleiddir ym mhob rhan berthnasol o'r Deyrnas Unedig. Rhaid i'r ffurflen hefyd gynnwys rhoddion perthnasol a dderbyniwyd gan yr ymgyrchydd at ddiben cwrdd â gwariant ar weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir yn yr etholiad.

Mae'r ffurflen yn rhoi tryloywder i bleidleiswyr ar yr arian a wariwyd a'r rhoddion a dderbyniwyd gan ymgyrchwyr.

Gweler Gofynion adrodd ar ôl yr etholiad am ragor o wybodaeth am ofynion y ffurflen gwariant a rhoddion.

Rhoddion perthnasol

Rhaid i bob ymgyrchydd cofrestredig nad yw'n blaid gydymffurfio â'r rheolaethau rhoddion yn Atodlen 11 i'r Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda sy'n nodi pwy all roi i ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau.

Dim ond ynghylch rhoddion a roddir i ymgyrchwyr cofrestredig nad ydynt yn bleidiau y mae'r cyfreithiau ar roddion yn berthnasol, yn benodol tuag at eu gwariant ar weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir. O dan y Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda, gelwir y rhain yn 'rhoddion perthnasol'. Nid yw'r cyfreithiau'n cynnwys arian a dderbynnir at ddibenion cyffredinol y sefydliad.

At ddibenion rhoddion i ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau, rhodd yw:

- arian, nwyddau, eiddo neu wasanaethau
- a roddir at ddiben gweithgarwch ymgyrchu a reoleiddir ac
- yn ddi-dâl neu ar delerau anfasnachol gyda gwerth o fwy na £500.

Dim ond o ffynonellau a ganiateir a nodir yn y Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda y gellir derbyn rhoddion a rhaid dychwelyd unrhyw roddion gan roddwyr nas caniateir neu roddwyr anhysbys o fewn 30 diwrnod i'w derbyn. Nid yw unrhyw beth sydd â gwerth o £500 neu lai yn rhodd at ddibenion y Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda.

Gweler ein canllawiau rhoddion am ragor o wybodaeth.

Rhaid i ymgyrchwyr cofrestredig nad ydynt yn bleidiau y mae'n ofynnol iddynt gyflwyno ffurflen gwariant gynnwys unrhyw roddion a dderbyniwyd at ddiben cwrdd â gwariant ar weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir mewn perthynas ag etholiad cyffredinol Senedd y DU sy'n bodloni amodau penodol. Rhaid i'r ymgyrchydd nad yw'n blaid adrodd am fanylion y canlynol:

- pob rhodd gan roddwyr nas caniateir neu roddwyr anhysbys
- pob rhodd a dderbyniwyd gyda gwerth o fwy na £7,500
- pob rhodd a dderbyniwyd gan yr un rhoddwr sy'n gwneud cyfanswm o fwy na £7,500 (rhoddion wedi'u cydgrynhoi)

a dderbyniwyd at ddiben cwrdd â gwariant ar weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir.

Gweler ein canllawiau am ragor o wybodaeth am ofynion rhoddion y ffurflen.

Priodoli gwariant ar draws y DU

Mae gofynion yn Atodlen 10 i'r Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda ar gyfer ymgyrchwyr cofrestredig nad ydynt yn bleidiau ynghylch sut y mae'n rhaid priodoli eu gwariant ar weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir i:

- etholaethau seneddol
- rhannau o'r DU

Diben y rheolau priodoli yw aseinio gwariant ar weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir i bob rhan o'r DU a phob etholaeth y mae'n cael effaith ynddi. Bydd yr holl wariant yn cyfrif tuag at y terfynau ar gyfer o leiaf un rhan o'r DU ac o leiaf un etholaeth.

Os mai dim ond mewn un rhan o'r DU y mae'r gwariant yn cael effaith, rhaid ei briodoli'n llawn i'r rhan honno. Os yw'r gwariant yn cael effaith mewn mwy nag un rhan o'r DU, rhaid ei briodoli i bob rhan yn gymesur â faint o etholaethau sydd ym mhob rhan. Mae'r gwariant a briodolir i bob rhan o'r DU yn cyfrif yn tuag at y terfyn gwariant ar gyfer y rhan honno.

Rhaid i wariant ar weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir gael ei rannu'n gyfartal rhwng yr holl etholaethau y mae'n effeithio arnynt. Mae'r gwariant a briodolir i bob etholaeth yn cyfrif tuag at y terfyn gwariant ar gyfer yr etholaeth honno.

Gweler ein canllawiau ar briodoli gwariant mewn etholiadau cyffredinol Senedd y DU am ragor o wybodaeth.

Gwariant tybiannol

Pan fo'r ymgyrchydd nad yw'n blaid wedi defnyddio eitem neu wasanaeth a ddarparwyd neu a drosglwyddwyd iddo a bod amodau penodol yn cael eu bodloni, caiff gwerth masnachol llawn yr hyn a ddefnyddiwyd ei drin fel gwariant ar weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir. O dan adran 86 o'r Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda, gelwir y gwariant hwn yn wariant tybiannol a reolir, y cyfeiriwn ato yn ein canllawiau fel gwariant tybiannol.

Bodlonir yr amodau ar gyfer gwariant tybiannol pan ddarparwyd yr eitem neu wasanaeth naill ai'n rhad ac am ddim, neu ar ddisgownt anfasnachol o fwy na 10%, lle mae'r gwahaniaeth mewn gwerth rhwng y gyfradd fasnachol a'r hyn a delir yn fwy na £200. Rhaid i'r ymgyrchydd adrodd ar wariant tybiannol yn y ffurflen ochr yn ochr â datganiad sy'n datgan bod y gwerth a adroddwyd yn rhesymol yn cynrychioli'r defnydd a wnaed o'r eitem neu wasanaeth yn ystod y cyfnod a reoleiddir.

Dylai'r ymgyrchydd wneud asesiad gonest a rhesymol o werth masnachol unrhyw wariant tybiannol y mae'n ofynnol ei adrodd yn y ffurflen gwariant a rhoddion. Gweler ein canllawiau ar wariant tybiannol i gael rhagor o wybodaeth am brisio ac adrodd ar wariant tybiannol.

Y cyfnod a reoleiddir

Y cyfnod a reoleiddir yw'r amser pan fydd terfynau gwariant a chyfreithiau yn berthnasol cyn yr etholiad. Y cyfnod a reoleiddir ar gyfer etholiadau cyffredinol Senedd y DU yw 365 diwrnod sy'n dod i ben ar y diwrnod pleidleisio.

Dechreuodd y cyfnod a reoleiddir ar gyfer etholiad cyffredinol Senedd y DU 2024 ar 6 Gorffennaf 2023 a daeth i ben ar y diwrnod pleidleisio sef 4 Gorffennaf 2024.

Gweler Pryd mae'r cyfreithiau ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau yn berthnasol? am fwy o wybodaeth.

Y person cyfrifol

Rhaid i bob ymgyrchydd cofrestredig nad yw'n blaid benodi person cyfrifol sy'n gyfrifol am sicrhau bod yr ymgyrchydd cofrestredig nad yw'n blaid yn dilyn y cyfreithiau ar wariant, rhoddion ac adrodd a nodir yn y Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda.

Diben adroddiad yr archwilydd

Diben adroddiad yr archwilydd yw rhoi barn ynghylch a yw'r ffurflen yn cynrychioli'r canlynol mewn ffordd berthnasol gyflawn a chywir:

- gwariant ar weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir yr aed iddo gan, neu ar ran, yr ymgyrchydd nad yw'n blaid mewn perthynas ag etholiad cyffredinol Senedd y Deyrnas Unedig

- rhoddion perthnasol a dderbyniwyd gan yr ymgyrchydd nad yw'n blaid at ddiben cwrdd â gwariant ar weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir mewn perthynas ag etholiad cyffredinol Senedd y DU.

Y diben hefyd yw rhoi barn ynghylch a yw'r datganiad wedi'i baratoi yn unol â'r Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda.

Cyflwyniad a chynnwys yr adroddiad

Dylid atodi'r adroddiad archwilio i'r ffurflen gwariant a rhoddion.

Dylai roi barn ynghylch a yw:

- mae'r ffurflen yn gynrychiolaeth berthnasol gyflawn a chywir o'r gwariant ar weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir yr aed iddo gan neu ar ran yr ymgyrchydd nad yw'n blaid mewn perthynas ag etholiad cyffredinol Senedd y DU, gan gynnwys gwariant tybiannol

- mae'r holl wariant ar weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir wedi'i fynd iddo a'i dalu yn unol â gofynion adrannau 90-93 o'r Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda

- mae'r gwariant ar weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir a adroddwyd wedi'i briodoli i bob etholaeth a phob rhan neu ran o'r Deyrnas Unedig, yn unol ag Atodlen 10 i'r Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda

- mae'r ffurflen yn gynrychiolaeth berthnasol gyflawn a chywir o'r rhoddion perthnasol a dderbyniwyd gan yr ymgyrchydd cofrestredig nad yw'n blaid mewn perthynas ag etholiad cyffredinol Senedd y DU

- mae'r ffurflen wedi'i pharatoi yn unol â'r Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda

Yr hyn y dylai'r ymgyrchydd nad yw'n blaid ei ddisgwyl o'r archwiliad

Bydd angen i'r archwilydd wneud digon o waith i fod yn fodlon nad oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn y ffurflen gwariant a rhoddion. Dylai'r gwaith hwn gynnwys adolygiad o'r rheolaethau sydd ar waith i sicrhau bod yr holl wariant ar weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir a rhoddion perthnasol wedi'u cofnodi'n gywir a'u bod wedi'u cynnwys yn y datganiad. Bydd yn cynnwys profion i sicrhau bod camddatganiadau'n cael eu nodi.

Yr hyn y mae gan yr archwilydd hawl iddo

O dan adran 44 o'r Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda, mae gan yr archwilydd:

- hawl i weld llyfrau, dogfennau a chofnodion eraill yr ymgyrchydd nad yw'n blaid ar bob adeg resymol

- hawl i ofyn i'r person cyfrifol neu unrhyw swyddog arall i'r ymgyrchydd nad yw'n blaid, neu unrhyw berson cyfrifol blaenorol neu swyddog yr ymgyrchydd nad yw'n blaid, am unrhyw wybodaeth ac esboniadau y mae'n meddwl eu bod yn angenrheidiol ar gyfer cyflawni eu dyletswydd fel archwilydd.

Systemau allweddol

Bydd yr archwilydd yn archwilio'r systemau rheoli allweddol a ddefnyddir gan yr ymgyrchydd nad yw'n blaid i sicrhau bod gwariant ar weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir wedi'i fynd iddo a'i dalu, yn unol â'r Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda. Er enghraifft, mae hyn yn cynnwys bod dirprwyo awdurdod ffurfiol wedi'i sefydlu, neu fod prawf yn bodoli bod gwariant ar weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir wedi'i fynd iddo gan y person cyfrifol. Os na all yr archwilydd wirio bod swm sylweddol o wariant ar weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir wedi'i fynd iddo neu ei dalu yn unol â'r Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda, bydd yn rhoi barn archwilio cymwys.

Priodoli gwariant ar draws y DU

Mewn etholiadau cyffredinol Senedd y DU, rhaid i ymgyrchwyr cofrestredig nad ydynt yn bleidiau briodoli eu gwariant ar weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir ledled y DU. Dylai'r archwilydd fod yn ymwybodol o'r gofyniad i briodoli gwariant ymgyrchu i bob etholaeth a phob rhan neu ran o'r DU lle cafodd y gwariant effaith. Byddant yn adolygu rheolaethau'r ymgyrchydd nad yw'n blaid ar gyfer priodoli gwariant ar weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir, a chyn belled ag y gellir yn rhesymol ddisgwyl, byddant yn bodloni eu hunain bod y gwariant a adroddwyd wedi'i briodoli i bob etholaeth a phob rhan neu ran o'r DU, yn unol â gofynion Atodlen 10 i'r Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda.

Gweler ein canllawiau ar briodoli gwariant mewn etholiadau cyffredinol Senedd y DU am ragor o wybodaeth.

Gwariant tybiannol

Dylai'r archwilydd fod yn ymwybodol o'r gofynion adrodd ar gyfer gwariant tybiannol, a bydd yn bodloni eu hunain bod y datganiad a lofnodwyd gan y person cyfrifol yn adlewyrchu gofynion y Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda. Byddant yn adolygu'r rheolaethau ar gyfer nodi, prisio ac adrodd ar eitemau o wariant tybiannol a, chyn belled ag y gellir yn rhesymol ddisgwyl, byddant yn bodloni eu hunain bod yr holl eitemau o wariant tybiannol wedi'u cynnwys yn y ffurflen ar werth teg ac yn cynrychioli'n rhesymol y defnydd a wnaed gan yr ymgyrchydd cofrestredig nad yw'n blaid yn ystod y cyfnod a reoleiddir.

Gweler ein canllawiau ar wariant tybiannol am ragor o wybodaeth. Er mwyn paratoi ar gyfer yr archwiliad, dylai'r ymgyrchydd nad yw'n blaid sicrhau bod yr holl gofnodion prisio a dyfynbrisiau a dderbyniwyd ar gyfer gwariant tybiannol ar gael i'r archwilydd. Dylid rhoi ystyriaeth debyg i gyflawnrwydd a gwerth costau gorbenion cynyddrannol.

Llythyr ymgysylltu

Dylai'r archwilydd a gyflogir i gyflawni'r dasg hon ddarparu llythyr ymgysylltu sy'n nodi cwmpas a natur y gwaith a fydd yn cael ei wneud er mwyn llunio ei farn archwilio. Dylai'r ymgyrchydd nad yw'n blaid gyflwyno'r llythyr ymgysylltu hwn i'r Comisiwn pan fydd yn cyflwyno'r ffurflen gwariant a'r adroddiad archwilio.

Amserlen ac archwiliad cyhoeddus o'r adroddiad

Mae'n rhaid i'r ymgyrchydd nad yw'n blaid gyflwyno'r ffurflen gwariant a rhoddion wedi'i chwblhau ac adroddiad yr archwilydd i ni o fewn 6 mis i ddyddiad yr etholiad, sef 4 Ionawr 2025.

Bydd y ffurflen ac adroddiad yr archwilydd ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio.

Sut y gallwn helpu

Os oes angen help arnoch, gallwch ein ffonio ar 0333 103 1928 neu gysylltu â ni drwy anfon neges e-bost at pef@electoralcommission.org.uk.

Y
Comisiwn
Etholiadol

Templed adroddiad yr archwilydd

[Enw'r person cyfrifol], (Person cyfrifol)

[Enw'r ymgyrchydd cofrestredig nad yw'n blaid] (yr ymgyrchydd nad yw'n blaid)

Rydym wedi archwilio'r ffurflen gwariant a reolir atodedig ar gyfer ymgyrch 20[xx] [etholiad perthnasol] yr ymgyrchydd nad yw'n blaid, a baratowyd gan [enw'r person cyfrifol], o dan adran 97(1A) o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000.

Yn ein barn ni, mae'r gwariant a reolir, a adroddwyd gan [person cyfrifol] [yn gynrychiolaeth gywir a chyflawn] [ddim yn gynrychiolaeth gywir a chyflawn] o wariant a reolir yr ymgyrchydd nad yw'n blaid rhwng [dechrau'r cyfnod a reoleiddir] a [dyddiad yr etholiad].

Yn ein barn ni, mae'r rhoddion a adroddwyd gan [person cyfrifol] [yn gynrychiolaeth berthnasol gyflawn a chywir] [ddim yn gynrychiolaeth berthnasol gyflawn a chywir] o'r rhoddion perthnasol a dderbyniwyd gan yr ymgyrchydd nad yw'n blaid at ddiben cwrdd â gwariant a reolir yr ymgyrchydd nad yw'n blaid o ran o [etholiad perthnasol].

Cyfrifoldebau priodol

Mae [enw'r person cyfrifol] yr ymgyrchydd nad yw'n blaid yn atebol am:

- Gadw cofnodion cyfrifo priodol ar gyfer yr ymgyrchydd cofrestredig nad yw'n blaid mewn perthynas ag ymgyrch [etholiad perthnasol].
- Sicrhau bod gwariant a reolir yr ymgyrchydd nad yw'n blaid wedi'i awdurdodi yn unol â gofynion adran 90 o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000.
- Cwblhau'r ffurflen gwariant a reolir yr aed iddo gan neu ar ran yr ymgyrchydd nad yw'n blaid rhwng [dechrau'r cyfnod a reoleiddir] a [dyddiad yr etholiad] mewn perthynas ag [etholiad perthnasol] 20[xx], yn unol ag adran 96 o'r Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda.
- Gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon rhesymol wrth benderfynu ar wariant a reolir yr ymgyrchydd nad yw'n blaid.
- Cadarnhau hyd eithaf ei wybodaeth a'i gred bod y gwariant a gofnodwyd ar ffurflen yr ymgyrchydd nad yw'n blaid yn gyflawn ac yn gywir.
- Cadarnhau bod yr holl roddion perthnasol y cofnodwyd eu bod wedi'u derbyn gan yr ymgyrchydd nad yw'n blaid yn y ffurflen gan roddwyr a ganiateir, ac na dderbyniwyd unrhyw roddion perthnasol eraill gan yr ymgyrchydd nad yw'n blaid mewn perthynas â'r etholiad perthnasol.

Ein cyfrifoldeb ni, fel archwilydd cymwys, yw adrodd ar y ffurflen gwariant a reolir o dan adran 97 o'r Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda. Yn benodol, ein hamcan yw rhoi barn ynghylch a yw'r gwariant a reolir a'r rhoddion perthnasol a adroddwyd ar y ffurflen yn cynrychioli'r holl wariant perthnasol yr aed iddo gan yr ymgyrchydd nad yw'n blaid a rhoddion perthnasol a dderbyniwyd ganddo, yn unol â'r gyfraith. .

Rydym hefyd yn darparu ein barn ynghylch p'un a yw [person cyfrifol] wedi cadw cofnodion cyfrifyddu priodol mewn perthynas â gwariant a reolir yr ymgyrchydd nad yw'n blaid a rhoddion perthnasol, os nad ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau rydym eu hangen ar gyfer ein harchwiliad, a manylion i ba raddau y gallai'r archwiliad ganfod anghysondebau, gan gynnwys twyll.

Sail ein barn

Nodir natur ein harchwiliad yn ein llythyr ymgysylltu dyddiedig [nodwch y dyddiad]. Rhoddwyd copi i'r Comisiwn Etholiadol. Rydym wedi adolygu'r sail y mae [person cyfrifol] wedi paratoi'r ffurflen gwariant a reolir. Roedd hyn yn cynnwys archwilio, ar sail prawf, y dystiolaeth sy'n berthnasol i'r gwariant a reolir yr aethpwyd iddo gan neu ar ran yr ymgyrchydd nad yw'n blaid mewn perthynas ag [etholiad perthnasol] 20[xx]. Rydym hefyd wedi asesu'r amcangyfrifon a'r dyfarniadau arwyddocaol a wnaed gan [person cyfrifol] yr ymgyrchydd nad yw'n blaid wrth baratoi'r ffurflen.

Cynlluniwyd a chyflawnwyd ein gweithdrefnau er mwyn cael yr holl wybodaeth ac esboniadau yr oeddem yn eu hystyried yn angenrheidiol i roi digon o dystiolaeth i ni roi sicrwydd rhesymol bod y ffurflen gwariant a reolir yn gynrychiolaeth berthnasol gyflawn a chywir o wariant rheoledig yr ymgyrchydd nad yw'n blaid, yn unol â'r gyfraith.

Barn

Yn ein barn ni:

- [Mae'r/Nid yw'r] ffurflen gwariant a reolir yn gynrychiolaeth berthnasol gyflawn a chywir o'r gwariant a reolir (gan gynnwys gwariant tybiannol) yr aed iddo gan, neu ar ran, yr ymgyrchydd nad yw'n blaid rhwng [dechrau'r cyfnod a reoleiddir] a [dyddiad yr etholiad] mewn perthynas â'i ymgyrch [etholiad perthnasol] 20[xx], yn unol â'r gyfraith

- [Mae'r/Nid yw'r] holl wariant a reolir wedi'i fynd iddo a'i dalu yn unol â gofynion adrannau 90-93 o'r Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda

- [Mae'r/Nid yw'r] gwariant a reolir a adroddwyd wedi'i briodoli i bob etholaeth a phob rhan neu ran o'r Deyrnas Unedig yn unol â gofynion Atodlen 10 i'r Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda

- [Mae'r/Nid yw'r] rhoddion perthnasol a adroddwyd yn gynrychiolaeth briodol gyflawn a chywir o'r rhoddion perthnasol a dderbyniwyd gan yr ymgyrchydd nad yw'n blaid at ddiben cwrdd â gwariant a reolir yr aed iddo gan, neu ar ran, yr ymgyrchydd nad yw'n blaid mewn perthynas â [etholiad perthnasol]

Nid ydym yn derbyn unrhyw ddyletswydd gofal na chyfrifoldeb i'r Comisiwn Etholiadol mewn perthynas â'n hadroddiad ac ni fyddwn yn derbyn unrhyw atebolrwydd na chyfrifoldeb i unrhyw drydydd parti arall y mae'n cael ei ddangos iddo neu y gall ddod i'w dwylo.

[Llofnodwyd a'i ddyddio gan yr archwilydd]